IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# LlC25-

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cylchfan Tal-y-bont i Gyffordd Wern, Cei'r Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *20 Hydref 2025* |
| *Yn dod i rym* | *27 Hydref 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cylchfan Tal-y-bont i Gyffordd Wern, Cei'r Trallwng, Powys) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Hydref 2025.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

# WG25-

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A483 Trunk Road (Buttington Roundabout to Wern Junction, Pool Quay, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles & Cyclists) Order 2025

| | |
|---|---|
| *Made* | *20 October 2025* |
| *Coming into force* | *27 October 2025* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A483 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A483 Trunk Road (Buttington Roundabout to Wern Junction, Pool Quay, Powys) (Temporary Prohibition of Vehicles & Cyclists) Order 2025 and this Order comes into force on 27 October 2025.

### Interpretation

**2.** In this Order—

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys, cerbydau gwasanaeth cynnal a chadw y gaeaf neu gerbydau sy’n cael eu defnyddio mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 27 Hydref 2025 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw’r darn o gefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion sy’n ymestyn o ochr ogleddol Cylchfan Tal-y-bont i Gyffordd Wern, Cei’r Trallwng, Powys.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 2 o’r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**5.** Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod para’r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 20 Hydref 2025

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services, winter maintenance service vehicles or vehicles being used in connection with the works giving rise to this Order;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the length of the A483 Swansea to Manchester trunk road that extends from the northern side of Buttington Roundabout to Wern Junction, Pool Quay, Powys;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 27 October 2025 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

**Prohibitions**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

**4.** No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road specified in article 2 of this Order.

**Application**

**5.** The prohibitions in articles 3 and 4 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**6.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 20 October 2025

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government